



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Rhif 2) 2023

DYDDIAD 19 Hydref 2023

GAN Lesley Griffiths AS, Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Bydd Aelodau o'r Senedd yn dymuno gwybod fy mod wedi rhoi caniatâd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig arfer pŵer is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Mae Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Rhif 2) 2023 wedi'u gosod gerbron Senedd y DU gan yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol wrth arfer pwerau o dan Erthyglau 15(1) a 18(1) o Reoliad (UE) 2019/1021 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Lygryddion organig parhaus (ail-lunio) ("Rheoliad POPs"). Gwnaed hyn i weithredu rhwymedigaethau rhyngwladol, sy'n cael eu gosod ar y DU drwy newidiadau i Gonfensiwn Stockholm ar POPs a ddaeth i rym ar 16 Tachwedd.

Mae'r OS hwn yn diwygio'r Rheoliad POPs. Bydd y digwyddiad yn ychwanegu asid perfluorohexane sylffonig ("PFHxS"), ei halwynau a chyfansoddion sy'n gysylltiedig â PFHxS i'r rhestr o sylweddau y gwaherddir eu gweithgynhyrchu, eu rhoi ar y farchnad a'u defnyddio o dan y Rheoliad POPs. Mae hefyd yn gosod gwerthoedd terfyn ar gyfer PFHxS, ei halwynau a chyfansoddion sy'n gysylltiedig â PFHxS sy'n digwydd fel halogydd olrhain anfwriadol mewn sylweddau, cymysgeddau ac eitemau.

Nid yw Gweinidogion Cymru yn cynnig cyflwyno OS Cymraeg cyfatebol gan fod y Rheoliad sy'n cael ei ddiwygio yn gymwys ar draws Prydain Fawr, felly rhaid i unrhyw ddiwygiadau iddo fod yn Saesneg yn unig.

Yr effaith y gall yr offeryn ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru:

Nid yw'r Rheoliadau drafft yn lleihau nac yn tanseilio pwerau Gweinidogion Cymru mewn unrhyw ffordd. Ni all yr Ysgrifennydd Gwladol ond arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru heb gydsyniad yn achos pwerau a gadwyd yn ôl. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru mewn materion datganoledig yn unig, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

Hoffwn sicrhau'r Senedd mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru mewn materion cymhwysedd datganoledig. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, mae manteision o gydweithio â Llywodraeth y DU lle mae rhesymeg glir dros wneud hynny. Ar yr achlysur hwn, rwyf wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Rheoliadau hyn, am resymau effeithlonrwydd a hwylustod, gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol, cydlynu trawslywodraethol a chysondeb.

Gosodwyd y Rheoliadau drafft gerbron Senedd y DU ar 16 Hydref 2023, gyda'r nod o ddod i rym ar 16 Tachwedd 2023.